**CYNGOR SIR FYNWY**

**Pwyllgor Trwyddedu a Rheleiddio Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga**
**Dydd Mawrth, 27ain Chwefror, 2024, 10.00 am**

| | |
|---|---|
| **CYNGHORWYR YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Sirol Tudor Thomas (Cadeirydd) |
| | Cynghorydd Sirol: Lisa Dymock, Tony Easson, Christopher Edwards, Simon Howarth, Jane Lucas, Jayne McKenna, Alistair Neill, Sue Riley, Dale Rooke, Jackie Strong |

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:**

| | |
|---|---|
| Linda O'Gorman | Prif Swyddog Trwyddedu |
| Samantha Winn | Licensing Officer |
| Paige Moseley | Solicitor |
| Richard Williams | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**YMDDIHEURIADAU:**

Dim.

1. **Datganiadau o Fuddiant.**

Dim wedi'u derbyn

2. **Cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol.**

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddio a gynhaliwyd ar y 16eg o Ionawr 2024 ac fe'u harwyddwyd gan y cadeirydd.

3. **Eithrio'r Wasg a'r Cyhoedd (tystysgrif i ddilyn).**

Gwaharddwyd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod wrth i'r pwyllgor ystyried yr eitemau busnes canlynol yn unol ag Adran 100A y Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd, ar y sail ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth wedi'i heithrio, fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf, yn cael ei datgelu.

4. **To consider whether the driver is "Fit and Proper" to hold a Hackney Carriage/Private Hire Drivers Licence.**

Croesawodd y Cadeirydd yr ymgeisydd i'r cyfarfod a chyflwynodd Aelodau'r Pwyllgor a'r Swyddogion a oedd yn bresennol ac eglurodd brotocol y cyfarfod.

Cadarnhaodd yr ymgeisydd eu henw a'u cyfeiriad i'r Pwyllgor. Cadarnhaodd yr ymgeisydd eu bod wedi derbyn yr adroddiad a chydnabyddasant eu bod yn barod i barhau heb gynrychiolaeth gyfreithiol.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Pwyllgor Trwyddedu a Rheleiddio Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga**
**Dydd Mawrth, 27ain Chwefror, 2024, 10.00 am**

Darllenwyd y prif faterion a manylion i'r Pwyllgor.

Yna rhoddwyd cyfle i'r ymgeisydd annerch y Pwyllgor, er mwyn cyflwyno unrhyw eglurhad perthnasol. Yn dilyn hyn, cyflwynodd Aelodau'r Pwyllgor gwestiynau i'r ymgeisydd a chafwyd trafodaeth. Yna rhoddwyd cyfle i'r ymgeisydd grynhoi.

Wedi'r cwestiynu, gadawodd y swyddogion a'r ymgeisydd y cyfarfod er mwyn rhoi cyfle i'r Pwyllgor ymgynghori a thrafod y darganfyddiadau.

Wedi i'r cyfarfod ail-gychwyn, dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi ystyried y materion ac wedi penderfynu nad yw'r ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal Trwydded Yrru Cerbyd Hacni/Llogi Preifat.

**5. Cyfarfod Nesaf: Dydd Mawrth 9fed Ebrill 2024 am 10.00am.**

Dydd Mawrth 9fed o Ebrill 2024 am 10.00am.